TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma Cyntaf mewn Busnes Lefel 2



**Yn gryno**

Drwy'r cwrs hwn byddwch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth allweddol o fewn y sector busnes, ynghyd â sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith ymarferol. Byddwch yn ennill sgiliau trosglwyddadwy allweddol y gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth o ddiwydiannau. Mae'r cwrs hwn yn gyfwerth â phedwar cymhwyster TGAU ar Radd A-C.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Oes gennych ddiddordeb mewn dysgu am y byd busnes

... Ydych eisiau dysgu sgiliau newydd ac annog eraill

... Hoffech fynd ymlaen i gyflogaeth neu Fusnes Lefel 3.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Wrth astudio'r cwrs ysbrydoledig hwn, byddwch yn canolbwyntio ar y sgiliau rydych eu hangen

yn y diwydiant hwn i ennill cyflogaeth gyda chyflogwyr lleol neu ddatblygu eich addysg ymhellach.

Byddwch yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o bynciau ac yn edrych ar faterion a thueddiadau presennol o fewn yr amgylchedd busnes i ennill yr wybodaeth fwyaf diweddar. Byddwch yn astudio cyllid, gwasanaeth cwsmer, marchnata a chynllunio ar gyfer busnesau bach, ynghyd â phrofiad gwaith. Ymhlith y modiwlau mae:

Menter yn y byd busnes
Cyllid ar gyfer Busnes
Egwyddorion Marchnata
Busnes Ar-lein
Cynllunio ar gyfer Busnesau Bach
Gwerthu a Gwerthu Personol
Darparu a Gwella Gwasanaeth Cwsmer
Rheoli Prosiectau

Byddwch yn cael eich asesu mewn ffyrdd gwahanol, o weithgareddau ymarferol, asesu cyfoedion, lleoliad gwaith, aseiniadau sy'n seiliedig ar sefyllfaoedd gweithle go iawn, a dau arholiad mewn marchnata a chyllid.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y pwnc â'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn rhannu syniadau a gwybodaeth wrth i chi weithio'n annibynnol ac o fewn prosiectau grwp.

Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus drwy waith cwrs, a fydd yn cynnwys gweithgareddau ysgrifenedig ac ymarferol, trafodaethau grwp, dadleuon, mynychu lleoliad gwaith, sgiliau cyflwyno, gweithio gydag eraill, yn ogystal ag arholiadau. Mae disgwyl i chi barhau gyda'ch astudiaethau a gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Pa gymwysterau fyddwch yn eu hennill:

Diploma Lefel 2 mewn Busnes
Gweithgareddau Sgiliau
Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich set sgiliau.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, byddwch yn gallu dilyn Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Busnes neu raglen Lefel 3 berthnasol arall.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd disgwyl i chi wneud cyfraniad bychan tuag at deithiau a gweithgareddau menter.